

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mr Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22/08/2017

Annwy I Russell,

Gwerthu Cymru i'r Byd

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi sylw i'r ymchwiliad hwn.

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r dyletswyddau statudol i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod safonau.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd sef

- na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Yn unol â hynny, cynigir isod sylwadau mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Sylwadau ar gylich gorchwyl yr ymchwiliad

Gohebais â'r Pwyllgor yn ddiweddar ar bwnc ymchwiliad i Brentisiaethau yng Nghymru. Nodais ar y pryd ddiffyg ystyriaeth i'r Gymraeg yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad. Yn ei ymateb ar 16eg Mai, eglurodd y Pwyllgor ei fod yn disgwyl trafod y defnydd o'r Gymraeg mewn Prentisiaethau, er nad oedd hyn yn rhan benodol o'n cylch gorchwyl. Tybiaf y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor ystyried amlygu'r parodrwydd i dderbyn sylwadau mewn cysylltiad â'r Gymraeg yn ei ymchwiliadau yn y dyfodol. Er enghraifft, yng nghyd-destun yr ymchwiliad presennol byddai sylw i'r Gymraeg yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad yn amlygu cydnabyddiaeth y Pwyllgor o botensial y Gymraeg i gyfrannu at 'werthu Cymru i'r byd'.

Y Gymraeg fel arf marchnata ac ased economaidd

Yn unol ag uchod, hoffwn dynnu eich sylw at ymchwil sy'n amlygu rôl y Gymraeg fel elfen greiddiol o strategaethau hybu economi Cymru.

Nid syniad newydd yw bod y Gymraeg yn gallu cynorthwyo twf busnesau a datblygu cynnyrch arloesol. Dadleuodd Arsyllfa Arloesedd yn 2005 y gellir manteisio ar amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol wrth ddatblygu cynnyrch unigryw ac arloesol yn yr economi creadigol sydd gennym heddiw.¹ Ategwyd hyn gan gasgliadau'r Grŵp Iaith ac Economi yn 2014. Barnodd y Grŵp fod 'dwyieithrwydd a gwerthfawrogiad o ddiwylliannau gwahanol yn rhan bwysig o strategaethau marchnata busnesau llwyddiannus ar draws y byd, sy'n cryfhau brandiau cwmnïau ac yn eu gwneud yn fwy perthnasol i gwsmeriaid lleol'.²

Gwelir dadleuon tebyg yng nghyd-destunau eraill. Casglodd ymchwil yn Friûl (ardal yng Ngogledd-Ddwyrain yr Eidal, lle siaredir yr iaith Ffriwleg yn ogystal â'r Eidaleg) fod gan ieithoedd lleiafrifol 'rôl bwysig o ran marchnata cynnyrch o'u tiriogaeth ac atgyfnerthu tarddiad y cynnyrch'.³ Canfu ymchwil yn yr Alban fod bron 70 y cant o fusnesau a gysylltwyd â hwy o'r farn bod yr Aeleg yn ased iddynt. Barnwyd hefyd ar sail y dystiolaeth fod yr Aeleg yn cyfrannu rhwng £82mln a £149mln at economi'r Alban.⁴

¹ Arsyllfa Arloesedd, *Elwa economaidd ar iaith a Diwylliant: Astudiaeth Hyd a Lled: Iaith – Diwylliant – Economi*. Adroddiad ar gyfer *Menter a Busnes* (Mehfin 2005).

² Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Ionawr 2014), t. 3.

³ Sillani (2006) ar ôl Robert Michael Lewis, MA (Cantab), MSc, PhD, *Darpariaeth Gymraeg a Dwyieithog yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru*, MRes Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Mawrth 2016), t. 10 [<http://repository.uwtsd.ac.uk/653/1/Robert%20Lewis%20-%20Traethawd%20MRes%20-%20terfynol%20-%20i%27w%20argraffu.pdf>]

⁴ Highlands and Islands Enterprise (HIE), *Ar Stòras Gàidhlig - The economic and social value of Gaelic as an asset- Executive summary* (Mai 2014) [<http://www.hie.co.uk/community-support/support-for-gaelic-development/gaelic-research.html>]



Dadleuodd adroddiad ymchwil yng Ngwlad y Basg fod yr iaith Fasgeg yn cyfrannu hyd at 4.2% at y cynnyrch mewnwladol crynswth.⁵

Gwelir bod y dadleuon hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun sawl sector economi penodol, megis sector gweithgynhyrchu a marchnata bwyd a diod; twristiaeth; a diwydiannau creadigol.

- **Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod**

Ceir tystiolaeth helaeth erbyn hyn am werth y Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata yn y sector gweithgynhyrchu a marchnata bwyd a diod. Tynnodd y Grŵp Iaith ac Economi sylw at gwmnïau rhyngwladol megis Dŵr Tŷ Nant a Chwisgi Penderyn sydd wedi defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u cynnig cystadleuol i gwsmeriaid ar draws y byd.⁶ Ategir y negeseuon hyn gan ganfyddiadau ymchwil Comisiynydd y Gymraeg *Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru*.⁷ Canfu'r ymchwil, a gyfwelodd gwmnïau bwyd a diod o wahanol rannau o'r wlad, bod defnyddio'r Gymraeg yn gwneud i'r cynnyrch sefyll allan; yn atgyfnerthu delwedd brand; yn cynnig cyfleoedd i werthu mewn marchnadoedd newydd; ac yn cael ei weld fel arwydd o ansawdd.

Dengys ymchwil pellach y Comisiynydd i ddefnydd y Gymraeg mewn archfarchnadoedd fod galw am wasanaethau Cymraeg mewn archfarchnadoedd ym mhob rhan o Gymru, a hynny gan siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Yn ôl yr ymchwil, hoffai mwy na 2 allan o 3 weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan archfarchnadoedd yng Nghymru. Dywedodd dros 20 y cant o ymatebwyr iddynt fod yn fwy tebygol o siopa mewn archfarchnad os yw'n defnyddio'r Gymraeg.⁸

Mae'n debyg ategir y casgliadau hyn gan ganfyddiadau cychwynnol darn o ymchwil a gomisiynwyd gan Adran Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru *Gwerth y naws Gymreig wrth werthu bwyd a diod*. Er nad yw'r ymchwil hwnnw wedi ei gyflawni eto, awgryma'r canfyddiadau cynnar cefnogaeth glir i frandiau oedd yn defnyddio'r Gymraeg e.e. Llaeth y Llan, Brecon Carreg, Blas ar Fwyd, Henllan, Halen Môn a Blas y Tir - a hynny gan siopwyr yng Nghymru ac ar draws Prydain.⁹

⁵ Basque Government, *The Value and Economic Impact of Basque – summary of results* (2015) [http://www.euskara.euskadi.eus/contenidos/informacion/value_economic_impact_basque/en_def/adjuntos/Euskararen%20eragin%20ekonomikoa_Laburpena_English%20AZKENA%202.pdf]

⁶ Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Ionawr 2014).

⁷ Comisiynydd y Gymraeg, *Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru - Adroddiad ymchwil* (Rhagfyr 2014) [<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Polisi.%20ymchwil%20a%20data/ymchwilqymdeithasol/Pages/Ymchwil-Gwerth-y-Gymraeg-i-%E2%80%99r-Sector-Bwyd-a-Diod-%E2%80%93-2014.aspx>]

⁸ Comisiynydd y Gymraeg, *Y Gymraeg yn y fasedd siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd*. [<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Archfarchnadoedd%20Cymraeg.pdf>]

⁹ Digwyddiad Adran Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru, 25 Gorffennaf 2017.



- **Gwerth y Gymraeg i'r sector twristiaeth**

Nid y sector bwyd a diod yn unig sy'n gallu elwa o'r Gymraeg. Sylwodd y Grŵp Iaith ac Economi hefyd ar fanteision o ddefnyddio'r Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata yn y diwydiant twristiaeth. Ceir ymchwil diweddarach hefyd a geisiodd egluro natur cyfraniad ieithoedd lleol yn gyffredinol, a'r iaith Gymraeg yn benodol, i'r profiad gwyliau.¹⁰ Casglodd yr ymchwil hwn fod 'rhyw 4.5 gwaith mwy o'r boblogaeth gyfan yn bositif neu'n niwtral am gyfraniad y Gymraeg i'r profiad gwyliau nag y sy'n negyddol'. Ystyriodd yr un ymchwil hefyd agweddau busnesau yn y sector tuag at ddarpariaeth ddwyieithog. Casglwyd, yn gyffredinol, y gwelir y Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw sy'n gwahaniaethu'r cynnyrch oddi wrth y gystadleuaeth ac adnodd i gyfoethogi profiad yr ymwelwyr.¹¹ Casglodd Comisiynydd y Gymraeg yn ogystal lawer yn fwy o dystiolaeth ansoddol sy'n ategu'r casgliadau hyn. Er enghraifft, meddai Huw Roberts, perchennog Gwesty Cymru yn Aberystwyth:

'Yng Nghymru rydym yn hynod o ffodus os ydy rhywun yn meddwl am farchnata Cymru, mae gennym ni iaith fyw, sy'n cael ei defnyddio gan filoedd ar filoedd o bobl ac mae hynny yn atyniad, nid dim ond i'r rhai di - Gymraeg - yn sicr y rhai tu allan i Brydain - ond mae'n atyniad hefyd i Gymry Cymraeg i allu dod i lefydd lle maen nhw'n gwybod bod yr iaith yn mynd i gael ei ddefnyddio'n naturiol...**hwn yw ein USP ni : *unique selling point* Cymru yw'r iaith Gymraeg.** Mae gennym ni'n tirwedd, mae gynnwys ni bob math o bethau sy'n atyniadol, ond ar ddiwedd y dydd, mae'r iaith yn rhywbeth amhrisiadwy.'

- **Gwerth y Gymraeg i'r sector diwydiannau creadigol**

Fel yng Ngwlad y Basg, mae'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru yn manteisio'n amlwg ar iaith fel arf marchnata ac ased economaidd. Yn 2014/15, gwariodd y BBC £12.8mln ar gostau creu rhaglenni Radio Cymru a £24.5mln ar gostau creu yr allbwn statudol ar gyfer S4C, heb gynnwys gorbenion, costau dosbarthu ac eraill.¹² Yn yr un flwyddyn ariannol buddsoddodd S4C £83mln yn economi Cymru a'r DU ac yn ôl ymchwil diweddaraf a gomisiynwyd gan S4C, mae bob £1 o'r buddsoddiad

¹⁰ Robert Michael Lewis, MA (Cantab), MSc, PhD, Darpariaeth Gymraeg a Dwyieithog yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru, MRes Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Mawrth 2016), t. 86 [<http://repository.uwtsd.ac.uk/653/1/Robert%20Lewis%20-%20Traethawd%20MRes%20-%20terfynol%20-%20i%27w%20argraffu.pdf>]

¹¹ Er y dylid tanlinellu roedd union canlyniadau'n amrwymo yn ddiabynnol ar gefndir ieithyddol y perchnogion /rheolwyr a'u hagwedd tuag at y Gymraeg; profiad ieithyddol yr ardal; profiad y cwsmeriaid; a blaenoriaethau marchnata a brand y busnes.

¹² BBC, *BBC Annual Report and Accounts 2014/15* (2015), t.139. [<http://downloads.bbc.co.uk/annualreport/pdf/2014-15/bbc-annualreport-201415.pdf>]



hwnnw yn fwy na dyblu yn ei werth i'r economi. Os felly amcangyfrifir bod S4C wedi cyfrannu tua £170mln at economi Cymru a'r DU yn 2014/15. Ar yr un pryd, mae llwyddiant prosiectau fel y *Gwyll* yn tystio i werth y Gymraeg wrth ddatblygu cynnyrch o ansawdd rhagorol ac unigryw, sy'n derbyn canmol rhyngwladol a chefnogi datblygu brand Cymru tramor.

Mae'n hanfodol bod strategaethau i 'werthu Cymru i'r byd' yn manteisio ar botensial y Gymraeg fel erfyn marchnata ac ased economaidd, yn enwedig yn y sector bwyd a diod, twristiaeth a diwydiannau creadigol.

Datblygiadau polisi

Eto i gyd, cwestiwn pwysig yw i ba raddau mae datblygiadau polisi yng Nghymru yn gwireddu potensial y Gymraeg fel erfyn marchnata ac ased economaidd.

- **Hybu'r Gymraeg fel erfyn marchnata ac ased economaidd**

Mis Ionawr 2014 ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion y Grŵp Iaith ac Economi. Ymysg eraill, barnodd y Grŵp y dylid datblygu 'strategaeth i annog a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel erfyn marchnata ac i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i fusnesau'.¹³ Awgrymodd hefyd y dylid atgyfnerthu'r neges hon yng ngweithgareddau marchnata Croeso Cymru. Wrth ymateb, cytunodd Llywodraeth Cymru fod '[w]rth ddatblygu strategaethau marchnata, credwn na ddylid ystyried y Gymraeg yn rhwystr nac yn faich y mae'n rhaid i fusnesau ei ysgwyddo, ond yn hytrach yn fantais ychwanegol a fydd yn eu helpu i achub y blaen ar eu cystadleuwyr, yng Nghymru ac yn rhyngwladol'.¹⁴

Nes ymlaen yn y flwyddyn honno cyhoeddwyd datganiad polisi *Bwrw Mlaen* a fynegodd 'ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu'r amgylchedd gorau posibl er mwyn meithrin twf y Gymraeg a datblygiad economaidd wrth i'r naill hybu'r llall'. Ymrwymwyd i gyfres o fesurau i hybu'r weledigaeth honno, gan gynnwys 'buddsoddi hyd at £400,000 mewn prosiectau penodol ym meysydd cymorth i fusnesau, ymchwil, marchnata a llywodraethu'.¹⁵ Barnwyd ar sail un o'r prosiectau hyn 'fod angen i'r Gymraeg gael ei phlethu a'i phrif ffrydio i raglenni o ddigwyddiadau a hyfforddiant i fusnesau, a bod hefyd

¹³ Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Ionawr 2014), t. 3.

¹⁴ Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd (Gorffennaf 2014), t. 3

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen: Datganiad polisi (Awst 2014), t. 6.



angen datblygu rhaglen o hyfforddiant i staff Busnes Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes.'¹⁶

Yn ogystal â'r datblygiadau hyn, ceir cyfeiriadau at werth y Gymraeg yn *Partneriaeth ar gyfer Twf*, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth yn y cyfnod 2013-2020.¹⁷ Ymrwymir hefyd i '[a]nnog mwy o fusnesau a chyrchfannau i greu naws unigryw o le i ymwelwyr sy'n defnyddio'r gorau o'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith'.¹⁸ Cyfeirir at werth y Gymraeg hefyd yn *Tuag at Dwf Cynaliadwy*, sef cynllun gweithredu ar *Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020: Strategaeth Fwyd i Gymru* yn y cyfnod 2014-2020. Ymrwymir yn y cynllun i '[g]eisio sicrhau yr ystyrir pob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy bolisiau bwyd a'r cynllun gweithredu, ac y manteisir ar y cyfleoedd hynny'.¹⁹

Er hyn, nid yw hi'n glir ar bob adeg i ba raddau mae'r ymrwymadau hyn yn cael eu gwireddu neu ddwyn ffrwyth. Eithriad yw tystiolaeth sydd ar gael dros fuddion ymgyrch marchnata dwys gan Fusnes Cymru i godi ymwybyddiaeth ymhlith siaradwyr Gymraeg o'r gwasanaeth cymorth a gynigir i fusnesau.²⁰ Fel arfer, nid oes tystiolaeth glir dros gynnydd mewn meysydd eraill. Er enghraifft, nid yw adolygiad o gynnydd y strategaeth *Partneriaeth ar gyfer Twf* (2016) yn cyfeirio at gynnydd yn hybu'r Gymraeg, ac eithrio am nodi bod Croeso Cymru wedi lansio gwefan yn y Gymraeg.²¹

Yn gyffredinol, mae angen ar graffu'n fwy systematig ar effaith yr ymdrechion i hybu defnydd y Gymraeg ar draws wahanol sectorau economi.

- **Cymorth gan yr Undeb Ewropeaidd ac effaith gadael yr UE**

Nododd y Grŵp Iaith ac Economi fod er mwyn 'adeiladu ar y defnydd cynyddol o'r Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata ac i gryfhau'r hunaniaeth Gymreig yn y gymuned ryngwladol ehangach' dylid ystyried 'cymell cwmnïau drwy ddefnyddio cyllid priodol o Ewrop a Llywodraeth Cymru'.²² Ategodd yr argymhelliad at negeseuon adroddiad *Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni*

¹⁶ Llywodraeth Cymru, *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17: Adroddiad blynyddol 2015-16* (2016), t. 4.

¹⁷ Llywodraeth Cymru, *Partneriaeth ar gyfer Twf - Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 - 2020* (2013), t. 20. [\[http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=cy\]](http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=cy)

¹⁸ Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 - 2020 Cynllun Gweithredu Fframwaith Blynyddoedd 1 - 3*, t. 17 [\[http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=cy\]](http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=cy)

¹⁹ Llywodraeth Cymru, *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020* (2014), t. 42 [\[https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/cynllun-gweithredu\]](https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/cynllun-gweithredu)

²⁰ Llywodraeth Cymru, *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17: Adroddiad blynyddol 2015-16* (2016), t. 5.

²¹ Llywodraeth Cymru, *Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 - Adolygiad o Gynnydd y Strategaeth* (Tachwedd 2016) t. 11. [\[http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=cy\]](http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=cy)

²² Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Ionawr 2014), t. 3.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ariannu Ewropeaidd 2014–2020 cyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2013.²³
Ni ymatebodd y Llywodraeth i'r argymhelliad y Grŵp Iaith ac Economi ar y pryd.

Mae'r cronfeydd ariannol Ewrop yn cyfrannu at gyllido rhai o'r prif brosiectau sy'n cynnig cymorth i fusnesau Cymreig a hybu cynnyrch o Gymru, megis Busnes Cymru, Bwyd a Diod Cymru, a Croeso Cymru. Mae'r cyllid Ewropeaidd hefyd yn allweddol wrth gefnogi cynrychiadau yn y sector diwydiannau creadigol, megis y Gwyll. Mae'n bosibl bydd y penderfyniad i ymadael yr Undeb Ewropeaidd yn dylanwadu'n sylweddol ar strwythur a maint y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y gweithgareddau hyn yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol nad yw diwygiadau yn sgil ymadael yr UE yn golygu dirywiad yn lefel y gefnogaeth i'r Gymraeg mewn gweithgareddau hybu busnesau a chynnyrch o Gymru ar draws gwahanol sectorau'r economi. Yn hytrach, dylid ymdrechu'n bwrpasol i sicrhau bod y gweithdrefnau diwygiedig yn galluogi atgyfnerthu'r pwyslais ar y Gymraeg yn y gweithgareddau hynny.

Hyderaf bydd y sylwadau uchod o ddefnydd wrth i'r Pwyllgor ymchwilio i wahanol agweddau o 'Werthu Cymru i'r Byd'. Hoffwn nodi hefyd, yn rhinwedd fy nyletswydd i hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg, bod gennyf wybodaeth am ddefnydd y Gymraeg gan sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector a'u profiad o ddefnyddio'r iaith yn eu gweithgareddau. Rwy'n eich gwahodd i gymryd golwg ar fideos a chlywed eu hanesion yn y fan [hon](#).

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

²³ Comisiynydd y Gymraeg, *Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020* (Tachwedd, 2013)

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Cyhoeddiadau/Pages/ManylionCyhoeddiad.aspx?PublicationId=1d1472ae-a000-4a67-9a27-a5ae1d231458&PublicationSearchTerm=ewrop>

